# Teithiau tramor

*19/09/2012*

### Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 8 Awst, pan wnaethoch ofyn:

*Rhwng 1 Ionawr a mis Awst 2012, a fyddech cystal â datgelu'r manylion canlynol ar gyfer holl deithiau tramor Aelodau'r Cynulliad:*

*- Enw'r AC.*
*- Pen y daith.*
*- Diben y daith.*
*- Amserlen lawn y cyfarfodydd cysylltiedig â'r daith dramor.*
*- Cost teithio (Pris taith trên/awyren).*
*- Dull teithio (trên/awyren) a dosbarth teithio.*
*- Enw a chyfeiriad y llety.*
*- Pris y llety.*
*- Treuliau eraill a gyflwynwyd gan yr AC ar gyfer y daith dramor, er enghraifft, prydau bwyd a dulliau eraill o deithio, fel tacsis.*

Er gwybodaeth, gall ymweliadau tramor gan Aelodau'r Cynulliad gael eu trefnu drwy dri maes, gan ddibynnu ar y rhesymau am yr ymweliad.

Y maes cyntaf yw Teithiau Ewropeaidd, pan fydd Aelodau'n hawlio cost yr ymweliadau drwy eu lwfansau. Mae'r costau hynny wedi'u cyhoeddi (neu byddant yn cael eu cyhoeddi) yn y gronfa ddata lwfansau ar y wefan o dan 'Costau Teithio yn Ewrop' http://www.allowances.assemblywales.org.uk/Default.aspx?Option=1&clang=1. Dyma'r wybodaeth ychwanegol y gwnaethoch gais amdani, nad yw'n cael ei chyhoeddi gyda'r hawliadau hynny:

| Enw'r Aelod | Pen y daith | Dosbarth | Enw / Cyfeiriad y Gwesty | Diben<br>Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mohammad Asghar | Cymru / Brwsel drwy Lundain (dychwelyd i Gaerdydd ar gyfer y Cyfarfod Llawn) | Euro Traveller | Bedford Hotel, 135-137 Rue du Midi, Brwsel | 25 Mehefin 2012 - Cyfarfodydd, trefnwyd gan Gregg Jones o Swyddfa Cymru ym Mrwsel ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd i drafod Cyllidebau'r UE, Horizon 2020, polisi trafnidiaeth rhanbarthol, Siambrau Masnach Prydain (ymweliad yn cynnwys sesiynau ar Gyfarwyddiaeth Gyffredinol polisi rhanbarthol, argyfwng Ardal yr Ewro, y wybodaeth ddiweddaraf am gronfeydd strwythurol yr UE a thrafodaethau diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, ymchwil ac arloesedd yn yr UE gan siaradwyr o Swyddfa Addysg Uwch Cymru Brwsel, ERRIN a Swyddfa Ymchwil y DU), Cyfarwyddiaeth Gyffredinol amaethyddiaeth, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol menter a POLIS, sef rhwydwaith yr UE ar gyfer trafnidiaeth ddinesig gynaliadwy). Hefyd, cafodd cyfarfodydd eu trefnu gan Dr Swinburne ASE i drafod materion yn ymwneud â chydraddoldeb. |
| Angela Burns | Cymru / Brwsel drwy Lundain | Euro Traveller | Bedford Hotel, 135-137 Rue du Midi, Brwsel | Fel uchod. |
| Christine Chapman | Cymru / Helsinki drwy Lundain | Euro Traveller | Sokos Vakkuna Hotel, Helsinki | 12, 13, a 14 Chwefror 2012<br>Edrych ar faterion yn ymwneud â diogelu plant, gan gynnwys diogelu plant rhag cael eu cosbi'n gorfforol.<br>Ymweld â gwasanaethau lles plant ac ysgolion yn Helsinki. Sesiwn yn y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Lles yn cwrdd ag Aelodau Seneddol. |
| Andrew R.T. Davies | Cymru / Brwsel drwy Lundain | Euro Traveller | Bedford Hotel, 135-137 Rue du Midi, Brwsel | 25 Mehefin 2012 - Cyfarfodydd, trefnwyd gan Gregg Jones o Swyddfa Cymru ym Mrwsel ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd i drafod Cyllidebau'r UE, Horizon 2020, polisi trafnidiaeth rhanbarthol, Siambrau Masnach Prydain (ymweliad yn cynnwys |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sesiynau ar Gyfarwyddiaeth Gyffredinol polisi rhanbarthol, argyfwng Ardal yr Ewro, y wybodaeth ddiweddaraf am gronfeydd strwythurol yr UE a thrafodaethau diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, ymchwil ac arloesedd yn yr UE gan siaradwyr o Swyddfa Addysg Uwch Cymru Brwsel, ERRIN a Swyddfa Ymchwil y DU), Cyfarwyddiaeth Gyffredinol amaethyddiaeth, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol menter a POLIS, sef rhwydwaith yr UE ar gyfer trafnidiaeth ddinesig gynaliadwy). Hefyd, cafodd cyfarfodydd eu trefnu gan Dr Swinburne ASE i drafod materion yn ymwneud â chydraddoldeb. |
| Byron Davies | Cymru / Brwsel drwy Lundain | Euro Traveller | Bedford Hotel, 135-137 Rue du Midi, Brwsel | Fel uchod. |
| Keith Davies | Cymru / Helsinki drwy Lundain | Euro Traveller | Sokos Vakkuna Hotel, Helsinki | 12, 13, a 14 Chwefror 2012<br>Edrych ar faterion yn ymwneud â diogelu plant, gan gynnwys diogelu plant rhag cael eu cosbi'n gorfforol.<br>Ymweld â gwasanaethau lles plant ac ysgolion yn Helsinki. Sesiwn yn y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Lles yn cwrdd ag Aelodau Seneddol. |
| Mark Drakeford | Cymru / Maes Awyr Stansted | Trefnwyd gan y Gymdeithas Gydweithredol, felly nid yw'r wybodaeth gan y Cynulliad. | Trefnwyd gan y Gymdeithas Gydweithredol, felly nid yw'r wybodaeth gan y Cynulliad. | 5 Ebrill 2012 - Cwrdd â Chymdeithas Gydweithredol Mondragon yng Ngwlad y Basg.<br>Ymweliad astudio ar gyfer datblygu modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol. |
| Llyr Huws Gruffydd | Cymru / Brwsel drwy Fanceinion | Economi | Ibis, Rue marche aux Herbes, Brwsel | 13 i 15 Chwefror 2012<br>Cyfarfod â'r Comisiwn Ewropeaidd<br>Cwrdd â chynrychiolwyr Tŷ Cymru, Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd, y Siambr Fasnach, ERRIN a Climate-KIC. |
| Mark Isherwood | Cymru i Frwsel drwy Gaer, Crewe a Llundain. Dychwelyd i Gaerdydd (Teithiodd i Frwsel ddydd Sul ar gyfer cyfarfodydd | Euro Traveller | Bedford Hotel, 135-137 Rue du Midi, Brwsel | 25 Mehefin 2012 - Cyfarfodydd, trefnwyd gan Gregg Jones o Swyddfa Cymru ym Mrwsel ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd i drafod Cyllidebau'r UE, Horizon 2020, polisi trafnidiaeth rhanbarthol, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | drwy gydol dydd Llun, dychwelyd ddydd Mawrth i Gaerdydd ar gyfer y Cyfarfod Llawn) | | | Siambrau Masnach Prydain (ymweliad yn cynnwys sesiynau ar Gyfarwyddiaeth Gyffredinol polisi rhanbarthol, argyfwng Ardal yr Ewro, y wybodaeth ddiweddaraf am gronfeydd strwythurol yr UE a thrafodaethau diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, ymchwil ac arloesedd yn yr UE gan siaradwyr o Swyddfa Addysg Uwch Cymru Brwsel, ERRIN a Swyddfa Ymchwil y DU), Cyfarwyddiaeth Gyffredinol amaethyddiaeth, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol menter a POLIS, sef rhwydwaith yr UE ar gyfer trafnidiaeth ddinesig gynaliadwy). Hefyd, cafodd cyfarfodydd eu trefnu gan Dr Swinburne ASE i drafod materion yn ymwneud â chydraddoldeb. Gan gynnwys cyfarfodydd yn ymwneud â phortffolio gweinidogol yr wrthblaid ynghylch Cyfarwyddiaeth Gyffredinol cyfiawnder, a chwrdd â CECODHAS, rhwydwaith/lobi Tai yr UE, i drafod y datblygiadau diweddaraf o ran polisi tai yn yr UE. |
| Ann Jones | Cymru / Paris ar yr Eurostar | Safonol | Nid y Cynulliad drefnodd, felly nid oes ganddo'r wybodaeth hon. | 28 a 29 Mehefin 2012 -<br>Prif siaradwr ar gyfraith Cymru, gan gyfeirio at ddiogelwch tân domestig.<br>Cwrdd â gwasanaethau tân, y bobl sy'n gwneud cyfreithiau yn Ewrop, Cynghorwyr, staff ym maes tai a chynrychiolwyr o'r diwydiant systemau chwistrellu dŵr. |
| Ieuan Wyn Jones | Cymru / Brwsel drwy Fanceinion | Economi | Ibis, Rue marche aux Herbes, Brwsel | 13 i 15 Chwefror 2012<br>Cyfarfod â'r Comisiwn Ewropeaidd<br>Cwrdd â chynrychiolwyr Tŷ Cymru, Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd, y Siambr Fasnach, ERRIN a Climate-KIC. |
| Julie Morgan | Cymru / Helsinki drwy Lundain | Euro Traveller | Sokos Vakkuna Hotel, Helsinki | 12, 13, a 14 Chwefror 2012<br>Edrych ar faterion yn ymwneud â diogelu plant, gan gynnwys diogelu plant rhag cael eu cosbi'n gorfforol.<br>Ymweld â gwasanaethau lles plant ac ysgolion yn Helsinki. Sesiwn yn y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Lles yn cwrdd ag Aelodau Seneddol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ken Skates | Cymru / Brwsel drwy Lundain | Economi | Ibis, Rue marche aux Herbes, Brwsel | 23 Ebrill 2012 - Trafod cronfeydd strwythurol yr UE, integreiddio, Platfformau Cydymwybyddiaeth (CAPS)<br>Cwrdd â chynrychiolwyr Tŷ Cymru, Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd, y Siambr Fasnach, ERRIN a Climate-KIC. |

Mae'r ail faes yn ymwneud ag ymweliadau sy'n cael eu trefnu ar gyfer busnes y Pwyllgorau. Bu un ymweliad o'r fath eleni; dyma'r manylion:

| Aelod Cynulliad | Pen y daith | Costau trên | Costau Eurostar | Costau llety | Costau Tacsi | Prydau bwyd | Dosbarth | Gwesty | Pwrpas/Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mick Antoniw | Brwsel | £671 (cyfanswm y costau ar gyfer yr holl Aelodau a gafodd eu trefnu'n ganolog gan Wasanaeth Pwyllgorau'r Cynulliad) | £1123 (cyfanswm y costau ar gyfer yr holl Aelodau a gafodd eu trefnu'n ganolog gan Wasanaeth Pwyllgorau'r Cynulliad) | £3176 (cyfanswm y costau ar gyfer yr holl Aelodau a gafodd eu trefnu'n ganolog gan Wasanaeth Pwyllgorau'r Cynulliad) | | | 2il Ddosbarth | Renaissance Hotel, Rue du Parnasse 19, Brwsel, 1050 Gwlad Belg | 9 i 11 Mai 2012 - Ymweliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r Comisiwn Ewropeaidd. Ymweliad i drafod effaith dau adroddiad gan y Pwyllgor (ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Polisïau Amaethyddiaeth a Physgodfeydd Cyffredin), cynnydd dilynol wrth gydbenderfynu ag Aelodau o Senedd Ewrop, yn enwedig gyda Rapporteurs ac Uwch-swyddogion y Comisiwn yn y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol perthnasol ac i gyfrannu at safbwynt trafod rhanddeiliaid Cymru. Cafwyd hefyd sesiynau gyda Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb |
| Rebecca Evans | | | | | £15.80 | | | | |
| Russell George | | | | | | £18.65 | | | |
| Vaughan Gething | | | | | | | | | |
| Llyr Huws Gruffydd | | | | | | | | | |
| Julie James | | | | | | | | | |
| William Powell | | | | | | | | | |
| David Rees | | | | | | | | | |
| Antoinette Sandbach | | | | | | | | | |
| Dafydd Elis-Thomas | | | | | £27.87 | £21.75 | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Ewropeaidd a sesiynau ar y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol amaethyddiaeth, diwygio'r PAC a'r PPC, materion morol a physgodfeydd a Chyfarwyddiaeth Gyffredinol yr amgylchedd. |

Mae'r trydydd maes yn ymwneud ag ymweliadau tramor gan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd fel rhan o'u dyletswyddau swyddogol. Dyma'r wybodaeth:

| Aelod Cynulliad | Pen y daith | Hedfan | Prydau bwyd | Tacsi | Llety | Dosbarth | Gwesty | Pwrpas/Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rosemary Butler | Chicago | £1058 | £50.45 | £133.66 | £1215.62 | Economi Premier | Hyatt Regency McCormick Place 2233 South Dr ML King Jr Drive Chicago | (Awst 2012) Fel y Llywydd, i gynrychioli a hyrwyddo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i waith, yn gynrychiolydd rhyngwladol yn Uwchgynhadledd Ddeddfwriaethol 2012 Cynhadledd Genedlaethol Deddfwrfeydd y Taleithiau a hefyd i gwrdd â chynrychiolwyr o gymdeithasau Cymreig Illinois. |
| David Melding | Ynysoedd Falkland | Dim cost i'r Cynulliad | Dim cost i'r Cynulliad | Dim cost i'r Cynulliad | Dim cost i'r Cynulliad | Economi | Malvina House Hotel, 3 Ross Road, Stanley | (Chwefror 2012) Drwy wahoddiad ac wedi'i dalu gan Lywodraeth Ynysoedd Falkland, i gynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y digwyddiadau i goffau rhyddhau Ynysoedd Falkland 30 mlynedd yn ôl. |

Mae’ch cais wedi’i ystyried yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.assemblywales.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion, sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**